CONSULTANCY
TRAINING
SUPPORT

Blas ar…

Cwrs datrys problemau

1. Sut mae rhoi jiraff mewn oergell?

Ateb cywir…. Agorwch ddrws yr oergell,rhowch y jiraff ynddi a chaewch y drws.

Mae'r cwestiwn yma'n asesu eich gallu i wneud tasg syml heb gymhlethu pethau.

2. Sut mae rhoi eliffant mewn oergell?

Ateb anghywir : Agorwch ddrws yr oergell,rhowch y eliffant ynddi a chaewch y drws.

Ateb cywir : Agorwch ddrws yr oergell, tynnwch allan y jiraff , rhowch yr eliffant yn yr oergell a chaewch y drws.

Mae'r cwestiwn yma'n profi'ch gallu i ystyried effeithiau eich gweithredoedd.

3. Mae Brenin y Jwngl yn cynnal cynhadledd i'r anifeiliaid.

Mae pob anifail ond un yn mynychu'r gynhadledd.

Pa anifail sy ddim yn mynychu'r gynhadledd ?

Ateb cywir : Yr Eliffant ; Mae'r eliffant yn yr oergell.

Mae'r prawf hyn yn profi'ch cof.

Iawn, mae un cyfle ar ôl i ddangos eich gallu hyd yn oed os ateboch chi'r 3 chwestiwn cyntaf yn anghywir

4. Mae'n rhaid croesi afon. Mae crocodeils yn byw yn yr afon, felly sut mae croesi'n ddiogel?

Ateb cywir : Rydych chi'n nofio. Mae'r crocodeils i gyd yn y gynhadledd.

Mae hyn yn profi a ydych chi'n dysgu o'ch camgymeriadau!

Hel Syniadau

- Ar ôl diffinio'r broblem, bydd angen hel syniadau ynglyn â mynd ati i ddatrys y problem.

- Sesiwn o hel syniadau (brainstorming) yw un ffordd o gael nifer fawr o awgrymiadau.

- Y nodwedd amlycaf ynddo yw nad oes neb yn beirniadu syniad waeth pa mor dda neu wael (neu hollol hurt) ydyw.

- Y rheswm am hyn yw y byddech yn amharod i gynnig syniad arall pe byddai rhywun yn chwerthin am ben un o'ch syniadau neu'n ei ddilorni.

- Efallai mai'ch syniad nesaf chi fyddai'r un gorau o'r cyfan.

Dyma'r camau wrth hel syniadau:

1. Rhoi ar bapur y broblem sydd i'w datrys.

2. Bydd aelodau'r tîm yn cynnig syniadau a gaiff hefyd eu nodi ar bapur.
   Does neb yn rhoi sylwadau arnynt.

3. Ar ddiwedd amser penodol (neu ar ôl dihysbyddu'r llif syniadau) bydd y tîm yn penderfynu pa syniadau a awgrymwyd sydd i'w defnyddio wrth gyflawni'r prosiect.

Dadansoddiad Rheswm ac Effaith.

Beth allai gyfrannu i'r broblem?



T: 01792 863514 M: 07900982524 W: www.drjrt.com



Syniadau twp ?

Syniad rhyfedd Leonardo !

Ddim mor rhyfedd!!!!

Problem:

Rydych ar fîn lawnsio ymgyrch hysbysebu newydd.

Mae'r uwch-reolwyr wedi gofyn i chi gyd-lynnu'r ymgyrch.

Ymarfer ...

- **Defnyddiwch dadansoddiad Rheswm ac Effaith i nodi'r prif gamau gweithredol.**
- **Datblygwch gynllun gweithredu pwrpasol.**

Asesu arwyddocâd yr hapddalwyr

Enw/Sefydliad	Rôl	Ymglymiad 0 - 5	Agwedd -5 to +5	Dylanwad U/C/I

Asesu agwedd yr hapddalwyr



Yn seiliedig ar ganlyniadau'r map, dylid llunio'r strategaethau canlynol...

- **Strategaethau er mwyn cryfhau'r Ymglymiad**

  Cael hapddalwyr sydd â dylanwad uchel, i gefnogi'r newid wrth roi lle blaenllaw iddynt yn y broses o newid.

- **Strategaethau er mwyn cryfhau'r Gefnogaeth**

  Dylanwadu ar hapddalwyr sy'n ddifater neu'n negyddol i weld y manteision sy'n deillio o'r newid.

- **Strategaethau er mwyn gwanhau Gwrthwynebiad**

  Gweithredu i leihau dylanwad y gwrthwynebwyr neu eu heithrio o'r broses.

Matrics Risg

Beth ydy'r risg?	Tebygolrwydd y caiff y risg yma ei wireddu (Uchel/Canolig/Isel)	Beth fydd y dylanwad ar y newid (U/C/I)	Sut gellir arbed/lleihau effaith y risg?	Beth dylid ei wneud os bydd y risg yma'n cael ei wireddu?

Y Grymoedd sy'n gysylltiedig â'r newid



Dadansoddiad Maes Grym.

Techneg er mwyn amcangyfrif yr holl ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar y broses o newid.

Gellir defnyddio'r dechneg yma i gynllunio strategaethau er mwyn cryfhau'r dylanwadau dros y newid ac i leihau'r dylanwadau yn erbyn y newid.

Os yw cydbwysedd y grymoedd yn dangos fod yna wrthwynebiad sylweddol i'r newid, dylid ystyried ail-edrych ar y cynllun newid gwreiddiol.

DADANSODDIAD MAES GRYM .



Pwyso a mesur yr opsiynau …….

Dadansoddwch eich opsiwn ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio'r patrymlun isod..